health & care professions council

# Safonau addysg a hyfforddiant

# Cynnwys

Cyflwyniad 3
Safonau lefel sefydliad 6
Safonau lefel rhaglen 12
Atodiad 17
Geirfa 19

# Cyflwyniad

## Ynglŷn â'r safonau

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r safonau addysg a hyfforddiant (SETau). Safonau gyda ffocws ar ganlyniadau yw'r rhain ac fe'u cynlluniwyd i sicrhau bod darparwyr addysg yn darparu addysg a hyfforddiant o ansawdd uchel. Dyma'r safonau rydym yn eu defnyddio i asesu rhaglenni addysg a hyfforddiant.

Mae rhaglen sy'n bodloni'r SETau yn caniatáu i ddysgwr sy'n cwblhau'r rhaglen honno'n llwyddiannus fodloni'r safonau hyfedredd ar gyfer eu proffesiwn. Yna maent yn gymwys i wneud cais i'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC) i gofrestru.

Daw'r safonau hyn i rym o 1 Medi 2027.

## Ein gwaith gyda darparwyr addysg

Rydym yn asesu darparwyr addysg a rhaglenni yn unol â'r SETau. Rydym yn ystyried rhaglenni newydd drwy ein proses gymeradwyo ac yn monitro darparwyr addysg a rhaglenni sydd ar waith eisoes drwy ein proses adolygu perfformiad. Rydym hefyd yn ystyried data a gwybodaeth ynglŷn â darparwyr addysg a rhaglenni a lle bo angen, rydym yn ystyried materion drwy ein proses adolygu â ffocws. Mae ein holl asesiadau yn seiliedig ar y SETau, ac yn ystyried a yw darparwyr addysg a rhaglenni yn bodloni'r safonau hyn wrth ddarparu'r rhaglen.

Mae deall disgwyliadau cyrff proffesiynol yn ein helpu i osod cyd-destun, i ddeall sut beth ydy ymarfer arferol a'r ymarfer gorau, ac i ofyn cwestiynau addas i ddarparwyr addysg wrth ffurfio ein barn.

Rydym wedi cynhyrchu canllawiau manwl ar y SETau, sydd â'r diben o roi mwy o wybodaeth am ystyr a bwriad y safonau a beth fydd ein disgwyliadau pan fyddwn yn asesu darparwyr addysg a rhaglenni yn ôl y safonau hynny. Mae'r canllawiau hyn i'w cael ar ein gwefan.

## Ein gwaith gyda chyrff proffesiynol

Mae cyrff proffesiynol yn chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o sicrhau a gwella ansawdd addysg. Yn aml, maent yn diffinio disgwyliadau penodol ar gyfer proffesiynau mewn addysg a hyfforddiant cyn-cofrestru drwy ganllawiau cwricwlwm a safonau addysg, ac yn cefnogi darparwyr addysg wrth iddynt ddatblygu rhaglenni newydd a'r rhai presennol i ansawdd uchel.

Mae nifer o gyrff proffesiynol yn achredu, ardystio, neu gymeradwyo rhaglenni addysg yn unol â'u meini prawf eu hunain. Yn aml, bydd cyrff proffesiynol yn gosod disgwyliadau ar gyfer meysydd megis gofynion mynediad i raglenni, dyluniad a dull darparu rhaglenni (gan gynnwys canllawiau cwricwlwm), trefniadau adnoddau gan gynnwys cymarebau staff / dysgwyr, a hyd ac ystod dysgu sy'n seiliedig ar ymarfer. Caiff y rhain eu pennu yn unol â'u barn a'u mewnwelediad arbenigol ynglŷn ag anghenion addysg a hyfforddiant, a bydd hynny'n aml yn amrywio rhwng gwahanol broffesiynau.

Rydym yn gweithio gyda chyrff proffesiynol i rannu ein dealltwriaeth o feysydd sydd o ddiddordeb ar y pryd, pryderon a mentrau sydd ar waith mewn perthynas ag addysg a hyfforddiant y proffesiynau rydym yn eu rheoleiddio. Rydym hefyd yn gweithio'n rhagweithiol a chyda phwrpas drwy ymgysylltu â chyrff proffesiynol drwy ein hasesiadau, er mwyn sicrhau ein bod yn cydweithio ac yn rhannu gwybodaeth mewn modd cyson a strwythuredig. Rydym yn cymryd camau ffurfiol i ystyried gwybodaeth a ddarperir gan gyrff proffesiynol fel rhan o'n gweithgareddau ac yn ein proses gwneud penderfyniadau. Mae hynny'n rhoi darlun cliriach i ni o ansawdd darpariaeth addysg ac i ba raddau y mae'n gyson â'n safonau. Mae deall gwybodaeth a geir yn un o gonglfeini allweddol ein model sicrhau ansawdd, ac mae'r hyn a ddarperir gan gyrff proffesiynol yn elfen allweddol o'r wybodaeth y byddwn yn ei hystyried.

## Bodloni'r safonau

Mae'r egwyddorion canlynol yn sylfaen i'r safonau addysg a hyfforddiant. Gyda'i gilydd, yr egwyddorion hyn sy'n ffurfio sylfaen y SETau ac maent yn adlewyrchu ein cyd-ddyhead i ddarparu

addysg sy'n gynhwysol, yn arloesol, ac wedi'i gwreiddio yn y nod o ddiogelu'r cyhoedd.

## Addysg sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn

Wrth galon y SETau, ceir ymrwymiad i addysg ddiogel a theg sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Rydym yn disgwyl i ddarparwyr addysg feithrin amgylcheddau dysgu cynhwysol a hygyrch lle bydd pob unigolyn, beth bynnag fo'u cefndir neu eu hunaniaeth, yn gallu ffynnu.

## Yn seiliedig ar dystiolaeth gyda gogwydd tuag at weithredu

Disgwylir i ddarparwyr addysg wneud penderfyniadau meddylgar, pwrpasol ar sail data, ymchwil a myfyrio. Mae hynny'n cynnwys ystyried goblygiadau moesegol, ceisio safbwyntiau amrywiol, herio rhagdybiaethau, a pharhau'n agored i arloesedd, yn enwedig o safbwynt ymgorffori offer, technolegau, a dulliau addysgol newydd.

## Cydweithredol

Mae'r SETau yn hyrwyddo ymagwedd gydweithredol tuag at addysg. Rydym yn disgwyl i ddarparwyr addysg weithio mewn partneriaeth â dysgwyr, defnyddwyr gwasanaethau, addysgwyr, a rhanddeiliaid eraill i ddatblygu a chydgynhyrchu rhaglenni sy'n adlewyrchu gwerthoedd sy'n gyffredin a phrofiadau bywyd.

## Ffocws ar y dyfodol

Rhaid i addysg fod yn gyfoes a bod â ffocws ar y dyfodol . Dylai darparwyr addysg fod yn barod i addasu, yn ymatebol i newid, a dylai fod ganddynt ymrwymiad i ddarparu dysgwyr ar gyfer ymarfer proffesiynol sy'n esblygu.

# Safonau lefel sefydliad

# 1. Darparu Adnoddau

1.1 Mae rhaglenni'n gynaliadwy'n ariannol o fewn y darparwr addysg ac yn addas at y diben gyda chefnogaeth yr holl randdeiliaid sy'n ymwneud â nhw.

# 2. Rheolaeth

2.1 Mae rhaglenni'n cael eu rheoli'n eglur ac yn effeithiol, gyda chyfrifoldebau wedi'u diffinio ar gyfer pob agwedd ar raglenni, gan gynnwys gyda phartneriaid strategol a gweithredol.

2.2 Mae egwyddorion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wedi'u hymgorffori mewn strategaethau a pholisïau ym mhob lleoliad, ac maent yn cael eu gweithredu, eu monitro a'u hadolygu mewn modd ystyrlon er mwyn cefnogi profiadau a deilliannau o ansawdd da i bob dysgwr ac eraill sy'n ymwneud â rhaglenni.

2.3 Mae ansawdd, diogelwch a thegwch y ddarpariaeth addysg a hyfforddiant yn cael eu monitro, eu gwerthuso, a'u gwella'n rheolaidd ar draws pob lleoliad.

2.4 Mae proses deg ac effeithiol ar waith ar gyfer penodi unigolion â chyfrifoldeb proffesiynol cyffredinol am raglenni, gan sicrhau eu bod yn gymwys ac yn gallu cefnogi darpariaeth addysg a hyfforddiant diogel ac effeithiol.

# 3. Diogelwch a llesiant

3.1 Mae pob amgylchedd dysgu yn ddiogel, yn gynhwysol ac yn gefnogol i ddysgwyr, defnyddwyr gwasanaethau ac eraill sy'n ymwneud â rhaglenni.

3.2 Mae anghenion llesiant a dysgu pob dysgwr yn cael eu cefnogi'n effeithiol ar draws pob lleoliad.

3.3 Cefnogir llesiant staff ac eraill sy'n ymwneud â rhaglenni, er mwyn galluogi cyfraniad effeithiol at y rhaglen ac ansawdd y dysgu.

3.4 Caiff ymddygiad, cymeriad a iechyd parhaus y dysgwyr eu hystyried, eu rheoli a, lle bo angen, bydd y darparwr addysg yn mynd i'r afael â hwy, er mwyn cynnal diogelwch defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr, ac eraill sy'n ymwneud â'r rhaglen.

3.5 Cefnogir dysgwyr i nodi a chodi pryderon ynghylch diogelwch a llesiant defnyddwyr gwasanaethau.

# 4. Derbyniadau

4.1 Mae'r broses derbyn yn deg, yn dryloyw ac yn hygyrch, ac yn galluogi'r ymgeisydd, y darparwr addysg, ac eraill sy'n ymwneud a'r broses i wneud dewisiadau gwybodus ynglŷn â derbyniadau i raglenni.

4.2 Caiff dysgu a phrofiad blaenorol ymgeiswyr eu hasesu er mwyn cefnogi penderfyniadau derbyn teg ar draws yr holl lwybrau mynediad.

4.3 Ceir gofynion derbyn teg, priodol ac effeithiol sy'n cwmpasu iechyd, ymddygiad, cymeriad, gwiriadau euogfarnau troseddol, a hyfedredd yn yr iaith Saesneg, er mwyn sicrhau y gall dysgwyr gymryd rhan mewn rhaglenni yn ddiogel a bodloni safonau proffesiynol.

# 5. Cyfathrebu a gwybodaeth

5.1 Mae gan ddysgwyr ac addysgwyr ymarfer y wybodaeth ymarferol ac academaidd sydd ei hangen arnynt i fod wedi'u paratoi'n briodol ar gyfer dysgu sy'n seiliedig ar ymarfer.

5.2 Mae'r darparwr addysg yn cyfleu beth yw rôl yr HCPC yn effeithiol i ddysgwyr ac yn sicrhau bod dysgwyr, addysgwyr ac eraill yn gwybod mai dim ond trwy gwblhau rhaglen a gymeradwywyd yn llwyddiannus y gellir sicrhau cymhwysedd i gael eu derbyn i'r Gofrestr.

5.3 Mae'r darparwr addysg yn nodi, yn gosod ac yn cyfleu yn eglur beth yw'r disgwyliadau ar gyfer presenoldeb, gan gynnwys pa rannau o'r rhaglenni sy'n gofyn am bresenoldeb gorfodol, ac yn monitro presenoldeb er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn ymgysylltu'n llawn mewn gweithgareddau dysgu hanfodol.

5.4 Mae gofynion asesu ar gyfer dilyniant a chyflawniad ar draws rhaglenni yn cael eu gosod, eu cyfleu a'u monitro'n eglur.

5.5 Caiff defnydd priodol a moesegol o dechnoleg mewn dysgu, addysgu, ac asesu ei nodi, ei ymgorffori, ei gyfleu'n eglur i ddysgwyr ac addysgwyr, a'i adolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn gyson ag ymarfer cyfredol.

5.6 Mae dysgwyr yn derbyn adborth amserol ac ystyrlon i'w grymuso a'u galluogi i chwarae rhan weithredol yn eu datblygiad eu hunain.

# 6. Pobl a phartneriaethau

## Staff rhaglenni

6.1 Mae pob addysgwr yn ymgymryd â dysgu a datblygu rheolaidd ac effeithiol sy'n briodol i'w rôl, anghenion dysgwyr, a chyflawni deilliannau dysgu.

6.2 Mae craffu allanol effeithiol ar raglenni, gan gynnwys o leiaf un person penodedig sydd â'r profiad proffesiynol a'r cymwysterau priodol sy'n berthnasol i'r rhaglen.

## Dysgwyr a defnyddwyr gwasanaethau

6.3 Mae defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yn cymryd rhan weithredol ac ystyrlon yn y broses o gynllunio, darparu a gwerthuso rhaglenni, gan gyfrannu at eu hansawdd, eu heffeithiolrwydd a'u perthnasedd i ymarfer iechyd a gofal.

6.4 Ceir cydsyniad priodol gan ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr, mewn ffyrdd sy'n cynnal eu hawliau ac yn adlewyrchu ymarfer moesegol.

6.5 Ceir cydsyniad priodol gan ddysgwyr, mewn ffyrdd sy'n cynnal eu hawliau ac yn cynnal eu diogelwch ym mhob lleoliad.

6.6 Mae dysgwyr yn cymryd rhan weithredol ac ystyrlon yn y broses o gynllunio a gwerthuso rhaglenni, gan gyfrannu at eu hansawdd, eu heffeithiolrwydd, a'u gwelliant parhaus.

6.7 Mae darparwyr addysg yn derbyn ac yn ymateb yn effeithiol i gwynion, adborth, a cheisiadau gan ddysgwyr am apeliadau academaidd.

# Safonau lefel rhaglen

# 7. Sefydlu'r rhaglen

7.1 Mae lefel academaidd y rhaglen yn addas er mwyn cefnogi dysgwyr i gyflawni'r Safonau hyfedredd a darparu ymarfer diogel ac effeithiol, yn unol â throthwyon y llwybrau mynediad a ddisgwylir fel arfer ac a nodir yn yr Atodiad.

7.2 Mae'r rhaglen yn cael ei llywio gan egwyddorion cydraddoldeb, amrywiaeth, a chynhwysiant, ac mae strategaethau a pholisïau perthnasol yn cael eu gweithredu, eu monitro, a'u hadolygu'n effeithiol ar draws y rhaglen.

7.3 Mae'r adnoddau i gefnogi dysgu ym mhob lleoliad yn effeithiol ac yn briodol i gyflwyno'r rhaglen ac maent yn hygyrch i bob dysgwr ac addysgwr.

7.4 Mae digon o ddysgu sy'n seiliedig ar ymarfer ar gael a digon o le i bob dysgwr gael cymryd rhan drwy gydol y rhaglen.

7.5 ae'r meini prawf dethol a mynediad yn briodol i lefel a chynnwys y rhaglen ac yn cael eu cymhwyso'n deg mewn penderfyniadau derbyn.

# 8. Dyluniad y rhaglen

## Deilliannau dysgu ac asesu

8.1 Mae'r deilliannau dysgu yn integreiddio'n effeithiol y gofynion ar gyfer ymarfer proffesiynol fel y'u diffinnir yn ein safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg a'r safonau hyfedredd ar gyfer rhan berthnasol y Gofrestr.

8.2 Mae asesiadau'n sicrhau bod y rhai sy'n cwblhau'r rhaglen yn llwyddiannus yn dangos eu bod yn gallu bodloni ein safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg a bodloni ein safonau hyfedredd ar gyfer rhan berthnasol y Gofrestr.

8.3 Mae dulliau dysgu ac addysgu yn briodol ar gyfer cyflawni'r deilliannau dysgu yn effeithiol.

8.4 Mae strwythur, hyd, ac ystod dysgu sy'n seiliedig ar ymarfer yn galluogi dysgwyr i ddatblygu'r wybodaeth, y sgiliau, a'r profiad sydd eu hangen i gyflawni'r deilliannau dysgu ac i fodloni ein safonau ar gyfer cael eu derbyn i'r Gofrestr.

8.5 Mae dulliau asesu yn briodol ac yn effeithiol ar gyfer mesur y deilliannau dysgu.

8.6 Mae asesiadau'n deg ac yn darparu mesur gwrthrychol a dibynadwy o gynnydd a chyflawniad dysgwyr.

## Cynnwys a strwythur

8.7 Defnyddir cyfeirbwyntiau allanol perthnasol er mwyn sicrhau bod y rhaglen yn adlewyrchu athroniaeth, gwerthoedd craidd, sgiliau a sylfaen wybodaeth aelodau presennol y proffesiwn.

8.8 Caiff y cwricwlwm ei adolygu a'i ddiweddaru'n rheolaidd i sicrhau ei fod yn parhau i ymateb i ddatblygiadau mewn ymarfer proffesiynol ac yn parhau i baratoi dysgwyr ar gyfer ymarfer diogel ac effeithiol.

8.9 Mae dysgu sy'n seiliedig ar ymarfer ac integreiddio damcaniaethau ac ymarfer cyfredol yn ganolog i'r rhaglen.

8.10 Mae dyluniad y rhaglen wedi'i lywio gan dystiolaeth ac ymarfer myfyriol ac mae'n cefnogi'r gwaith o addasu ac integreiddio dulliau a thechnolegau priodol.

# 9. Darparu'r rhaglen

## Partneriaethau

9.1 Ceir partneriaethau ffurfiol rhwng y darparwr addysg a'u partneriaid cyflenwi, sy'n cynnwys cydweithio rheolaidd ac effeithiol a gwerthuso ar y cyd, sy'n sicrhau cyfrifoldeb y darparwr am y rhaglen.

9.2 Mae digon o staff cymwys a phrofiadol ym mhob lleoliad i gyflwyno a chefnogi'r rhaglen yn ddiogel ac effeithiol mewn ffordd sy'n galluogi dysgwyr i gyflawni'r safonau hyfedredd a pharatoi ar gyfer ymarfer.

9.3 Cefnogir dysgu gan addysgwyr sydd â chymwysterau, profiad ac arbenigedd perthnasol, er mwyn galluogi dysgwyr i ddatblygu'r wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiadau sydd eu hangen ar gyfer ymarfer diogel ac effeithiol.

9.4 Mae addysgwyr yn gyfarwydd â defnyddio technolegau ac offer digidol cyfredol sy'n berthnasol i'w proffesiwn ac a ddefnyddir mewn addysgu, goruchwylio ac asesu.

## Dulliau dysgu

9.5 Mae'r rhaglen yn cynnwys dysgu gyda, a gan, weithwyr proffesiynol a dysgwyr mewn proffesiynau perthnasol eraill, yn unol ag egwyddorion gweithio mewn tîm amlddisgyblaethol ac ymarfer rhyngbroffesiynol.

# Atodiad

Trothwyon y llwybrau mynediad i'r Gofrestr a ddisgwylir fel arfer, ac y cyfeirir atynt yn safon 7.1 ydy'r canlynol:

## Gradd Baglor gydag anrhydedd ar gyfer:

- gwyddonwyr biofeddygol (gyda'r Dystysgrif Cymhwysedd a ddyfernir gan y Sefydliad Gwyddor Biofeddygol, neu gymhwyster cyfatebol);
- ciropodyddion / podiatryddion;
- deietegwyr;
- therapyddion galwedigaethol;
- ymarferwyr adrannau llawfeddygol;
- orthoptyddion;
- parafeddygon;
- ffisiotherapyddion;
- prosthetyddion / orthotyddion;
- radiograffwyr, a
- therapyddion iaith a lleferydd.

## Gradd sylfaen ar gyfer:

- cyflenwyr cymorthyddion clyw.

## Gradd Meistr ar gyfer:

- therapyddion celf;
- gwyddonwyr clinigol (gyda'r Dystysgrif Cyrhaeddiad a ddyfernir gan Gymdeithas y Gwyddonwyr Clinigol, neu gymhwyster cyfatebol[1]);

1 Darllenwch ein nodyn i gael rhagor o fanylion ynglŷn â'r lefel trothwy ar gyfer cymhwyso i wyddonwyr clinigol yn unol â chynnwys SET 1.

- seicolegwyr fforensig (gyda dyfarniad cymhwyster Cymdeithas Seicolegol Prydain mewn seicoleg fforensig, neu gymhwyster cyfatebol);
- seicolegwyr iechyd (gyda dyfarniad cymhwyster Cymdeithas Seicolegol Prydain mewn seicoleg iechyd, neu gymhwyster cyfatebol);
- seicolegwyr galwedigaethol (gyda dyfarniad cymhwyster Cymdeithas Seicolegol Prydain mewn seicoleg alwedigaethol, neu gymhwyster cyfatebol); a
- seicolegwyr chwaraeon ac ymarfer corff (gyda dyfarniad cymhwyster Cymdeithas Seicolegol Prydain mewn seicoleg chwaraeon ac ymarfer corff, neu gymhwyster cyfatebol).

## Doethuriaeth broffesiynol ar gyfer:

- seicolegwyr clinigol.

## Doethuriaeth broffesiynol, neu gymhwyster cyfatebol ar gyfer:

- seicolegwyr cwnsela; a
- seicolegwyr addysg.

# Geirfa

Efallai nad ydych chi'n gyfarwydd â rhai o'r termau rydyn ni'n eu defnyddio drwy gydol y safonau a'r dogfennau canllaw, felly rydym wedi'u hesbonio isod.

**Apêl academaidd:** Cais gan ddysgwr am adolygiad o benderfyniad corff academaidd ynghylch eu cynnydd, eu hasesiad neu eu dyfarniad. Ni ddylid drysu rhwng apêl academaidd a chwyn neu bryder.

**Hygyrch:** Wedi'i gynllunio neu ei addasu i sicrhau y gall unigolion, gan gynnwys y rhai ag anableddau neu anghenion eraill, gymryd rhan lawn mewn gweithgareddau dysgu ac asesu.

**Ymgeisydd:** Unrhyw un sy'n gwneud cais i raglen a ddarparwch.

**Priodol:** Addas neu'n briodol at ddiben, cyd-destun neu unigolyn penodol, yn enwedig mewn perthynas â barn broffesiynol, ymddygiad neu ddarpariaeth addysgol.

**Cymeradwyo:** Y broses sy'n arwain at benderfyniadau ynghylch a yw rhaglen yn bodloni gofynion ein safonau addysg a hyfforddiant. Mae cymeradwyaeth barhaus yn dibynnu ar fonitro boddhaol.

**Asesu:** Y broses o werthuso gwybodaeth, sgiliau ac ymddygiadau proffesiynol dysgwr er mwyn penderfynu a yw'n bodloni'r safonau gofynnol ar gyfer dilyniant neu gymhwyso.

**Gofalwr:** Unrhyw un sy'n gofalu am, neu'n darparu cefnogaeth i, aelod o'r teulu, partner neu ffrind.

**Gofal, triniaeth neu wasanaethau eraill:** Term cyffredinol i ddisgrifio'r gwahanol waith y mae unigolion sy'n gofrestredig â ni yn ei wneud.

**Cydweithiwr:** Gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal eraill, dysgwyr a hyfforddeion, gweithwyr cymorth, gofalwyr proffesiynol ac eraill sy'n ymwneud â darparu gofal, triniaeth neu wasanaethau eraill i ddefnyddwyr gwasanaethau.

**Cwyn:** Mynegiant o bryder penodol gan ddysgwr ynghylch ansawdd y rhaglen a chyfleoedd dysgu, neu'n fwy cyffredinol ynghylch materion fel triniaeth anghyfartal neu fwlio. Ni ddylid drysu rhwng cwyn ac apêl academaidd.

**Ymddygiad:** Sut mae gweithiwr proffesiynol iechyd a gofal yn ymddwyn.

**Cydsyniad:** Caniatâd i unigolyn cofrestredig ddarparu gofal, triniaeth neu wasanaethau eraill, a roddir gan ddefnyddiwr gwasanaeth, neu rywun sy'n gweithredu ar eu rhan ar ôl derbyn yr holl wybodaeth sydd ei angen yn rhesymol arnynt er mwyn gwneud y penderfyniad hwnnw.

**Cwricwlwm:** Cynllun strwythuredig i ddarparu dysgu penodol i gefnogi gwybodaeth, sgiliau, ymddygiad a phrofiadau dysgu cysylltiedig dysgwyr. Yn gyffredinol, trefnir y cynllun dysgu fel dilyniant o fodiwlau fel bod dysgwr yn derbyn addysg a hyfforddiant penodol. Mae'r cwricwlwm yn cynnwys y maes llafur, canllawiau addysgu, canllaw asesu ac adnoddau dysgu angenrheidiol.

**Gwahaniaethu:** Trin person neu grŵp o bobl yn annheg, yn wahanol i bobl neu grwpiau o bobl eraill. Mae hyn yn cynnwys trin eraill yn wahanol oherwydd barn am eu ffordd o fyw, eu diwylliant neu eu statws cymdeithasol neu economaidd, yn ogystal â'u nodweddion a ddiogelir gan y gyfraith: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, hil, priodasau a phartneriaethau sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, crefydd neu gredo, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

**Darparwr addysg:** Y sefydliad (er enghraifft coleg, prifysgol, cwmni neu ddarparwr addysg uwch preifat) sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol dros ddarparu'r rhaglen. Mae hyn yn cynnwys cyfrifoldeb am ansawdd a dyfarnu'r cymhwyster a roddir. Rydym yn dal y darparwr addysg yn gyfrifol am fodloni ein holl safonau addysg a hyfforddiant.

**Addysgwr:** Rhywun sy'n ymwneud ag addysgu, asesu neu gynorthwyo dysgu ar raglen. Gall y term hwn gynnwys pobl sydd wedi'u cyflogi'n barhaol gan y darparwr addysg ac eraill sy'n helpu i ddarparu'r rhaglen, fel darlithwyr sesiynol neu ddarlithwyr gwadd ac addysgwyr ymarfer.

**Effeithiol:** Cyflawni'r canlyniad a fwriadwyd mewn modd cymwys, amserol a phroffesiynol, yn enwedig mewn perthynas ag addysgu, dysgu, asesu neu ymarfer.

**Deddfau cydraddoldeb ac amrywiaeth:** Fframweithiau cyfreithiol y mae'n rhaid i ddarparwyr addysg ac eraill sy'n ymwneud â'r rhaglen gydymffurfio â nhw er mwyn sicrhau triniaeth deg ac addasiadau rhesymol i bob ymgeisydd a dysgwr, gan gynnwys y rhai ag anableddau.

**Uwchgyfeirio:** Trosglwyddo pryder ynghylch diogelwch neu lesiant defnyddiwr gwasanaeth i rywun sy'n fwy cymwys i weithredu arno, er enghraifft cydweithiwr uwch, rheolwr neu reoleiddiwr.

**Moeseg:** Y gwerthoedd sy'n llywio ymddygiad neu farn unigolyn.

**Profiad:** Cael cyswllt ymarferol â ffeithiau neu ddigwyddiadau ac arsylwi arnynt, neu fod wedi ennill gwybodaeth a sgiliau trwy gymryd rhan mewn

gweithgareddau perthnasol dros amser.

**Teg:** Trin pobl yn gyfartal, yn ddiduedd ac yn gyfiawn, heb ragfarn na gwahaniaethu, ac yn unol â safonau cyfreithiol a moesegol.

**Addas i ymarfer:** Pan fydd gan rywun y sgiliau, y wybodaeth, y cymeriad a'r iechyd i ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol.

**Adolygiad â ffocws:** Ein proses asesu, sy'n galluogi ymgysylltu amserol â darparwyr addysg yn seiliedig ar y wybodaeth neu'r ddealltwriaeth a dderbyniwn neu a ddarganfyddwn

**Llywodraethu:** Y polisïau, y prosesau a'r trefniadau monitro sy'n sicrhau bod rhaglen yn cael ei rhedeg yn dda.

**Diduedd:** Heb ddod dan ddylanwad teimladau na buddiannau personol; yn dangos tegwch a gwrthrychedd wrth wneud penderfyniadau a rhyngweithio.

**Arweinyddiaeth:** Darparu strategaeth, gweledigaeth neu gyfeiriad ar gyfer y darparwr addysg, y rhaglen neu sefydliad partner arall.

**Dysgwr:** Unrhyw un sy'n astudio neu'n hyfforddi ar raglen sy'n arwain at fod yn gymwys i ymuno â'n Cofrestr. Mae'r term yn cynnwys myfyrwyr, hyfforddeion, prentisiaid ac ymarferwyr mewn hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith.

**Deilliannau dysgu:** Datganiadau sy'n disgrifio'r hyn y disgwylir i ddysgwr ei wybod, ei ddeall a gallu ei wneud ar ôl cwblhau gweithgaredd neu raglen dysgu.

**Rheoli:** Goruchwylio darpariaeth rhaglen o ddydd i ddydd, gan gynnwys gosod rolau a chyfrifoldebau a dyrannu adnoddau.

**Monitro:** Y prosesau parhaus y mae'r HCPC yn eu defnyddio i sicrhau bod rhaglenni a gymeradwywyd yn parhau i fodloni'r safonau gofynnol. Mae hyn yn cynnwys adolygiad â ffocws ac adolygiad perfformiad.

**Anghenion:** Gofynion neu amodau sy'n angenrheidiol er mwyn i ddysgwr lwyddo, a all gynnwys cefnogaeth academaidd, addasiadau rhesymol neu ystyriaethau llesiant.

**Anwahaniaethol:** Gweithredu mewn ffordd nad yw'n trin unigolion na grwpiau'n annheg yn seiliedig ar nodweddion gwarchodedig.

**Gwrthrychol:** Yn seiliedig ar ffeithiau a thystiolaeth yn hytrach na theimladau neu farn bersonol; defnyddir mewn prosesau asesu, gwneud penderfyniadau a gwerthuso.

**Adolygiad perfformiad:** Ein hymgysylltiad cyfnodol â darparwyr addysg i ddeall perfformiad a risg sy'n gysylltiedig â'n safonau.

**Darparwr addysg ymarfer:** Y sefydliad sy'n darparu dysgu sy'n seiliedig ar ymarfer ar gyfer rhaglen. Mewn llawer o achosion, mae hwn yn sefydliad ar wahân i'r darparwr addysg. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, darparwyr iechyd a gofal, awdurdodau lleol, ysgolion, sefydliadau cymunedol ac elusennau ar draws y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol.

**Addysgwr ymarfer:** Person sy'n gyfrifol am addysg dysgwr yn ystod eu dysgu sy'n seiliedig ar ymarfer ac sydd wedi derbyn hyfforddiant a chefnogaeth briodol ar gyfer y rôl hon.

**Dysgu sy'n seiliedig ar ymarfer:** Y profiad clinigol neu ymarferol sy'n rhan hanfodol o raglen a gymeradwywyd. Gall ddigwydd mewn cyfnodau ar wahân o amser neu drwy gydol rhaglen.

**Ymarferydd:** Gweithiwr iechyd a gofal proffesiynol sy'n ymarfer yn eu proffesiwn ar hyn o bryd.

**Lleoliad ymarfer:** Cyfnod strwythuredig o ddysgu sy'n seiliedig ar ymarfer o fewn lleoliad iechyd neu ofal, wedi'i gynllunio i helpu dysgwyr i gymhwyso gwybodaeth ddamcaniaethol mewn amgylcheddau byd go iawn.

**Rhaglen:** Yr addysgu academaidd, dysgu sy'n seiliedig ar ymarfer, asesu, cymhwyso a gwasanaethau eraill a ddarperir gan y darparwr addysg, sydd gyda'i gilydd yn ffurfio'r rhaglen at ddibenion cymeradwyo a monitro.

**Cynaliadwyedd rhaglen:** Gallu rhaglen i barhau i weithredu'n effeithiol dros amser, gan gynnwys cael digon o adnoddau, staffio a chynllunio strategol.

**Addasiadau rhesymol:** Newidiadau neu addasiadau a wneir gan sefydliad sy'n ymwneud ag addysg a hyfforddiant i gefnogi dysgwyr ag anableddau neu gyflyrau iechyd, gan sicrhau mynediad cyfartal at ddysgu ac asesu.

**Cydnabod dysgu blaenorol:** Asesiad o ddysgu blaenorol ymgeisydd o brofiad neu ddysgu ffurfiol (neu'r ddau). Gall hyn arwain at drosglwyddo credydau neu drefniadau pontio eraill i raglen, lle bo'n briodol.

**Cyfeirio:** Gofyn i rywun arall ddarparu gofal, triniaeth neu wasanaethau eraill sydd y tu hwnt i gwmpas ymarfer unigolyn cofrestredig neu, lle bo'n berthnasol, oherwydd bod y defnyddiwr gwasanaeth wedi gofyn am ail farn.

**Cofrestr:** Y rhestr (neu unrhyw ran ohoni) a gedwir gennym o'r gweithwyr proffesiynol sy'n bodloni ein safonau ar gyfer eu hyfforddiant, eu sgiliau

proffesiynol, eu hymddygiad a'u hiechyd.

**Unigolyn cofrestredig:** Person sydd ar ein Cofrestr ar hyn o bryd.

**Rheolaidd:** Yn digwydd ar adegau cyson neu mewn modd arferol, fel adolygiadau, cyfarfodydd neu weithgareddau monitro wedi'u trefnu.

**Perthnasol:** Wedi'i gysylltu'n agos neu'n briodol i'r mater dan sylw, yn enwedig mewn perthynas â chynnwys y cwricwlwm, meini prawf asesu neu ymarfer proffesiynol.

**Dibynadwy:** Yn gyson dda o ran ansawdd neu berfformiad; gellir ymddiried ynddynt i gyflawni deilliannau cywir a dibynadwy.

**Diogel:** Lleihau risg a niwed i ddysgwyr, defnyddwyr gwasanaethau ac eraill, a sicrhau bod amgylcheddau ac arferion yn cefnogi llesiant a safonau proffesiynol.

**Cwmpas ymarfer:** Y meysydd lle mae gan unigolyn cofrestredig y wybodaeth, y sgiliau a'r profiad sy'n angenrheidiol i ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol.

**Staff:** Unrhyw un sy'n ymwneud â darparu'r rhaglen. Mae'r term yn berthnasol i bob rôl gan gynnwys addysgwyr, rheolwyr, staff gweinyddol a chymorth, yn ogystal â phobl mewn swyddi am dâl a di-dâl. Mewn dysgu sy'n seiliedig ar ymarfer, gall y term hwn hefyd gyfeirio at eraill sy'n gweithio yn y lleoliad dysgu seiliedig ar ymarfer sy'n rhyngweithio â dysgwyr.

**Safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg (SCPEau):** Safonau sy'n berthnasol i bawb ar ein Cofrestr a phobl sy'n gwneud cais i gofrestru. Maent yn nodi ein disgwyliadau ynghylch ymddygiad gweithiwr proffesiynol, ac yn cwmpasu eu moeseg, prosesau gwneud penderfyniadau, cyfathrebu a rhyngweithio â defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr, cydweithwyr ac eraill.

**Safonau hyfedredd (SOPau):** Safonau sy'n nodi'r wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth sy'n angenrheidiol i ymarfer proffesiwn yn ddiogel ac yn effeithiol. Rhaid i weithwyr proffesiynol fodloni'r safonau hyn pan fyddant yn cwblhau rhaglen a gymeradwywyd cyn y gellir eu cofrestru.

**Asesiad addasrwydd:** Proses i benderfynu a oes gan ymgeisydd y cymeriad, yr iechyd a'r ymddygiad priodol i hyfforddi ac ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol.

**Addas:** Bodloni'r meini prawf neu'r amodau angenrheidiol ar gyfer rôl, gweithgaredd neu gyd-destun penodol, yn enwedig mewn perthynas â derbyniadau, lleoliadau neu ymarfer proffesiynol.

**Cefnogol:** Darparu anogaeth, cymorth neu adnoddau i helpu dysgwyr i lwyddo a chynnal llesiant drwy gydol eu haddysg a'u hyfforddiant.

**Trylwyr:** Cyflawn a manwl o ran dull, gan sicrhau bod pob agwedd ar dasg, proses neu benderfyniad yn cael ei hystyried a'i datrys.

**Lefel trothwy:** Y safon addysg a hyfforddiant gofynnol ar gyfer ymarfer diogel ac effeithiol, fel y'i diffinnir gan yr HCPC ar gyfer pob proffesiwn.

**Dilys:** Yn rhesymegol gadarn ac yn dderbyniol yn gyfreithiol neu'n broffesiynol; ym maes asesu, mae'n cyfeirio at fesur yn gywir yr hyn y bwriedir ei fesur.

**Llesiant:** Iechyd corfforol, meddyliol ac emosiynol cyffredinol unigolyn, sy'n effeithio ar eu gallu i ymgysylltu â'u haddysg a'u hyfforddiant a llwyddo ynddynt.

I wneud cais am y ddogfen hon mewn fformat arall, anfonwch e-bost: **policy@hcpc-uk.org**

© The Health and Care Professions Council

Yn weithredol o 1 Medi 2027
Cod cyhoeddi: 20270907 POLPUB/SET

**www.hcpc-uk.org**